



SGILIAU BYWYD

SGILIAU DIGIDOL YN Y GWEITHLE >

Cynllun y Sesiwn

CIPOLWGW

Mae'r sesiwn yma'n edrych ar ba sgiliau digidol craidd sydd eu hangen ar gyfer llawer o yrfaoedd, a sut gellir datblygu'r sgiliau yma. Bydd y dysgwyr yn edrych ar astudiaethau achos ac yn ystyried pa sgiliau digidol y bydd eu hangen arnyn nhw o bosibl ar gyfer llwybr gyrfa sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Mae'r sesiwn yma wedi cael ei chreu mewn partneriaeth â Tesco.

Nodyn: byddai defnyddio'r deunyddiau yma'n gallu helpu i ddangos beth mae dysgwyr wedi'i gyflawni ar gyfer y cymhwyster; fodd bynnag, y ganolfan sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl dystiolaeth a gyflwynir yn cyflawni'r deilliannau dysgu gofynnol ac yn bodloni'r meini prawf asesu.



CYFLEOEDD LLYTHRENNEDD, IAITH A

RHIFEDD

- ✓ Darllen a dadansoddi hysbysebion swyddi
- ✓ Ysgrifennu a siarad am sgiliau digidol a gyrfaoedd



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad PowerPoint – Sgiliau digidol yn y gweithle
- ✓ Adnodd Hysbysebion swyddi
- ✓ Taflen waith 'Virtual college' (dewisol)
- ✓ Adnodd Proffiliau
- ✓ Templed Fy sgiliau digidol
- ✓ Taflen waith Hyder digidol (dewisol)
- ✓ Cyfrifiaduron â mynediad i'r rhyngwrwyd



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Sgiliau Digidol – Deiliant Dysgu: Deall sut mae defnyddio adnoddau digidol; Adolygu eu sgiliau digidol eu hunain, a nodi elfennau i'w datblygu ac ar gyfer y gweithle

DEILLIANNAU DYSGU

- ✓ Dweud pa sgiliau digidol sydd eu hangen ar gyfer gwahanol weithleoedd
- ✓ Deall pwysigrwydd sgiliau digidol yn y gweithle
- ✓ Gwybod sut i ddatblygu sgiliau digidol

GWEITHGAREDDAU

GWEITHGAREDDAU	AMSER	TUDALEN
<u>Cyflwyniad</u>	5-10 munud	<u>03</u>
<u>Sgiliau digidol ar gyfer byd gwaith</u>	15 munud	<u>04</u>
<u>Datblygu sgiliau digidol</u>	10 munud	<u>06</u>
<u>Diwrnod ym mywyd...</u>	20-25 munud	<u>08</u>
<u>Fy sgiliau digidol</u>	Dependent	<u>10</u>
<u>Dirwyn i ben</u>	5-10 munud	<u>12</u>

CYFLWYNIAD >



AMSER

5-10 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad PowerPoint – Sgiliau digidol yn y gweithle

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Cyflwynwch y pwnc drwy ofyn i'r dysgwyr beth mae 'sgiliau digidol' yn ei olygu iddyn nhw?
2. Eglurwch fod sgiliau digidol yn eich galluogi i ddefnyddio dyfeisiau digidol, rhaglenni cyfathrebu, a rhwydweithiau i reoli a chael gafael ar wybodaeth. Mewn geiriau eraill, mae'n golygu bod yn hyderus wrth wneud y canlynol:
 - Defnyddio gliniaduron, ffonau symudol, cyfrifiaduron a dyfeisiau tabled
 - Cyfathrebu drwy e-bost a llwyfannau eraill
 - Gwybod sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel
 - Gwybod sut i ddefnyddio gwahanol becynnau meddalwedd i'ch helpu i drin a storio gwybodaeth – er enghraifft Microsoft Office neu Adobe
 - Cydweithio ar-lein. Mae gweithio o bell yn dod yn fwy poblogaidd, ac mae llwyfannau fel Microsoft Teams yn galluogi cydweithwyr i gyd-greu a chydweithio ar yr un pryd ar-lein. Mae hyn yn golygu rhannu sgriniau mewn galwadau fideo, a chyd-greu ac adolygu dogfennau/darnau gwaith o bell
3. Gwnewch y cwis ar sleid 2 y cyflwyniad ategol fel grŵp, neu rhannwch y dysgwyr yn barau.

Atebion:

 1. 27%
 2. 21%
 3. 41% – mewn cymhariaeth â'r cyfartaledd cenedlaethol o 27% (ateb 1)

Roedd y cwis yma'n seiliedig ar adroddiad Mynegai Digidol Defnyddwyr y DU Lloyds Bank yn 2020: <https://www.lloydsbank.com/banking-with-us/whats-happening/consumer-digital-index/essential-digital-skills.html>
4. Dylech annog trafodaeth fel grŵp am yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu o'r cwis. Oes unrhyw rai o'r ffeithiau wedi'u synnu? Pam/ pam ddim?

SGILIAU DIGIDOL AR GYFER BYD GWAITH >



AMSER

15 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad PowerPoint – Sgiliau digidol yn y gweithle
- ✓ Adnodd Hysbysebion swyddi



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Egluro pam mae'n bwysig sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau digidol yn gyfredol

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Rhowch funud neu ddwy i'r grŵp edrych ar yr hysbysebion yn yr adnodd Hysbysebion swyddi. Fe ddylen nhw ystyried a thrafod beth sy'n gyffredin rhwng yr hysbysebion yma.

Mae yna ychydig o sgiliau sy'n ymddangos ym mhob hysbyseb, ond dylech ganolbwyntio ar sgiliau digidol: Mae pob un ohonyn nhw'n gofyn am lefel o sgiliau a gwybodaeth ddigidol. Mae technoleg ddigidol yn newid byd gwaith a'r ffordd rydym yn gweithio, ac mae hyn yn creu heriau yn ogystal â manteision i sefydliadau ac i bobl ifanc sy'n chwilio am swyddi.

2. Dangoswch y ffeithiau ar sleid 3 y cyflwyniad ategol i'r dysgwyr, sy'n egluro ymhellach pam mae cael sgiliau digidol yn bwysig er mwyn cael swydd a gyrfa sefydlog sy'n talu'n dda. Oes unrhyw ffeithiau o ddiddordeb arbennig iddyn nhw neu'n eu synnu?

Daw'r ystadegau hyn o adroddiad a wnaed mewn partneriaeth â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/807830/No_Longer_Optional_Employer_Demand_for_Digital_Skills.pdf

3. Gofynnwch i'r grŵp enwi rhywfaint o heriau y bydd pobl ifanc yn dod ar eu traws os nad oes ganddyn nhw sgiliau digidol sylfaenol. Yn yr un modd, pa fanteision sydd ar gael/yn bosibl i bobl ifanc sy'n teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio eu sgiliau digidol? Gwnewch nodyn ar y bwrdd gwyn/siart troi.

Manteision posibl:

- Mwy o swyddi ar gael iddyn nhw ar draws sectorau/diwydiannau
- Yn gallu defnyddio a manteisio ar bob rhan o'r rhyngwrwyd yn hyderus (siopa, disgowntiau a bargeinion, rheoli arian, iechyd a llesiant, addysg ac ati)
- Cysylltu â chyflogwyr yn hyderus
- Manteisio ar dechnoleg sy'n rhoi cyfle iddyn nhw fod yn greadigol/yn wreiddiol
- Gwarchod eu hunain a'u gyrfa ar gyfer y dyfodol – ni fydd sgiliau digidol a thechnoleg yn diflannu, a byddan nhw'n angenrheidiol yn y dyfodol
- Manteisio ar gyfleoedd i rwydweithio, er enghraifft LinkedIn

Heriau posibl:

- Mae angen lefel o lythrennedd digidol arnyn nhw i wneud cais am swyddi, ac i gael profiad yn y gweithle
- Mae proses recriwtio'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn cynnwys ceisiadau ar-lein. Byddai bod yn anlythrennog yn ddigidol yn cyfyngu/lleihau nifer y swyddi y bydden nhw'n gallu gwneud cais amdany'n nhw
- Mae angen buddsoddi mewn caledwedd i wneud unrhyw beth ar-lein (gliniadur/cyfrifiadur/dyfais tabled/dyfais symudol), gan gynnwys i wneud cais am swyddi'n hyderus. Mae hyn yn ddrud, ac efallai na fydd gan y person ifanc na'r teulu yr arian i brynu dyfais
- Does dim llawer o gyfleoedd i ddefnyddio cyfrifiadur am ddim, ond mae'n dal yn bosibl gwneud hynny mewn rhai llyfrgelloedd a chanolfannau gwaith drwy system archebu. Mae caffis rhyngrwyd yn fwy cyffredin, ond bydd yn rhaid talu fesul awr



DATBLYGU SGILIAU DIGIDOL >



AMSER

10 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad PowerPoint – Sgiliau digidol yn y gweithle
- ✓ Taflen waith 'Virtual college' (dewisol)



CYFLEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Ffyrdd i ddatblygu sgiliau digidol
- ✓ Egluro pam mae'n bwysig sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau digidol yn gyfredol

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Eglurwch fod sgiliau digidol yn amlwg yn hollbwysig yn y byd sydd ohoni. Gofynnwch i'r dysgwyr sut maen nhw'n meddwl y gall pobl ddatblygu eu sgiliau digidol. Eglurwch mai dysgu eu hunain yw un o'r ffyrdd gorau o ddechrau gwneud hynny.

Dangoswch sleid 4 y cyflwyniad ategol i'r dysgwyr, sy'n rhestru ychydig o wefannau sydd ar gael am ddim i ddatblygu sgiliau digidol.

2. Dangoswch sleidiau 5-8 i'r dysgwyr, sy'n dangos sut mae Tesco yn helpu ei weithwyr i ddatblygu sgiliau digidol.
3. Dywedwch wrth y dysgwyr eich bod chi eisoes wedi trafod pam y byddai gwella sgiliau digidol yn fuddiol i unigolion, gan fod eu hangen ar gyfer bywyd bob dydd a'r farchnad swyddi. Ond pam fyddai cyflogwyr yn treulio amser ac yn gwario arian ar wella sgiliau digidol eu gweithwyr? Dylech annog y dysgwyr i drafod eu syniadau mewn parau, ac i adrodd yn ôl i'r grŵp wedyn. Mae sleid 9 yn cynnwys ychydig o atebion posibl.
4. Dywedwch wrth y grŵp fod datblygu sgiliau digidol yn bwysig, ond bod datblygu sgiliau meddal yr un mor bwysig, neu hyd yn oed yn bwysicach. Gofynnwch a oes unrhyw un yn gwybod beth yw sgiliau meddal.

Ateb posibl:

Mae sgiliau meddal – sydd hefyd yn cael eu galw'n sgiliau cyffredin neu'n sgiliau craidd – fel creadigrwydd a phroffesiynoldeb, yn sgiliau sy'n ddymunol ym mhob proffesiwn.

Dylech annog parau i feddwl am o leiaf 3 sgil meddal arall. Cymharwch eu hymatebion â'r rhestr gynhwysfawr o sgiliau meddal dymunol ar sleid 10.

5. Eglurwch i'r dysgwyr fod sgiliau meddal yn bwysig oherwydd eu bod nhw'n creu'r sylfaen i allu dysgu mwy o sgiliau technegol, gan gynnwys sgiliau digidol, fel defnyddio meddalwedd/rhaglenni penodol.

Er enghraifft, bydd sgiliau creadigol neu feddwl yn greadigol yn help wrth ddylunio pethau yn y gwaith gan ddefnyddio rhaglenni digidol creadigol fel Photoshop, Illustrator neu PowerPoint.

GWEITHGAREDD YMESTYNNOL DEWISOL

Mae'r erthygl isod yn dangos enghreifftiau nodweddiadol o'r heriau yr oedd llawer o sefydliadau wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig. Roedd rhai a oedd yn ddigon ffodus i gael presenoldeb digidol wedi goroesi, ond roedd hi wedi bod yn anodd iawn i'r rheini a oedd heb bresenoldeb ar-lein, ac mae'n bosibl eu bod nhw wedi mynd i'r wal.

Gwelodd Virtual College gynnydd yn nifer y dysgwyr a oedd yn gwneud hyfforddiant, sy'n atgyfnerthu'r neges bod diweddarau'ch sgiliau a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gyfredol yn hollbwysig i'r gweithle. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen yr erthygl hon: <https://learningnews.com/news/virtual-college/2021/why-businesses-turned-to-digital-learning-to-get-them-through-pandemic-year>

Dylech eu hannog i grynhoi'r pwyntiau allweddol, ac i ddefnyddio taflen waith Virtual College i gasglu'r wybodaeth.

Gallant hefyd edrych ar wefan Virtual College i gael rhagor o wybodaeth: <https://www.virtual-college.co.uk/about/expertise>



DIWRNOD YM MYWYD... >



AMSER

20-25 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Adnodd Proffiliau
- ✓ Cyflwyniad PowerPoint – Sgiliau digidol yn y gweithle



CYFLEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Rhoi enghreifftiau o dasgau sy'n gofyn am adnoddau digidol
- ✓ Egluro pam mae'n bwysig sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau digidol yn gyfredol
- ✓ Ffyrdd o ddatblygu sgiliau digidol

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Dywedwch wrth y dysgwyr ein bod ni'n cysylltu sgiliau digidol heb feddwl â swyddi yn y sector technoleg. Fodd bynnag, yn y byd sydd ohoni, y gwir amdani yw bod angen sgiliau digidol sylfaenol o leiaf ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi. Meddylwch am gynorthwywyr cwsmeriaid Tesco er enghraifft. Efallai eich bod chi'n meddwl mai sgiliau meddal sydd ganddyn nhw'n bennaf, fel cyfathrebu a gwaith tîm. Fodd bynnag, mae angen gwybodaeth sylfaenol am sgiliau digidol ar bob cynorthwydd cwsmeriaid. Ydy'r dysgwyr yn gallu meddwl am y gwahanol sgiliau digidol sydd eu hangen o bosibl ar gynorthwywyr cwsmeriaid? Dylech eu hannog i rannu eu syniadau. Wedyn gallech egluro:

- Bod angen i'r gweithwyr til wybod sut mae defnyddio'r til; y botymau cywir i'w defnyddio, a sut i ddelio â gwahanol ddulliau talu.
- Bod angen i gynorthwywyr cwsmeriaid wirio'r stoc ar y cynorthwydd digidol personol, sef dyfais llaw gyda microsglodyn a ddefnyddir i storio a threfnu gwybodaeth, yn ogystal â defnyddio'r ap symudol i gael gwybod ble mae'r cynnyrch ar lawr y siop.
- Bod angen i gynrychiolwyr gwasanaeth cwsmeriaid ar gyfer archebion ar-lein wybod sut mae cyfathrebu'n broffesiynol â chwsmeriaid dros e-bost ac wrth sgwrsio ar-lein, a chwilio am archebion a'u haddasu ar y system ar-lein.

2. Rhannwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau bach. Rhowch un o'r proffiliau o'r adnodd Proffiliau i bob grŵp, gan sicrhau bod gan wahanol grwpiau wahanol broffiliau. Gofynnwch iddyn nhw ystyried a thrafod y cwestiynau ar sleid 11 (sydd hefyd wedi cael eu rhestru isod).

3. Dylech wahodd y grwpiau i fynd ati i drafod y person yn eu proffil nhw gyda gweddill y dysgwyr. Trafodwch y cwestiynau ar sleid 11:

- Oes gan y person swydd sy'n cael ei hystyried fel arfer yn swydd ddigidol? Beth mae'n ei wneud?
- Pa sgiliau digidol sydd eu hangen ar y person ar gyfer ei swydd? Pam?
- Pa raglenni/meddalwedd y mae angen i'r person eu defnyddio ar gyfer ei swydd?

GWEITHGAREDD YMESTYNNOL DEWISOL

Efallai y byddwch chi am ddatblygu'r sgwrs yma ymhellach. Dyma rywfaint o bwyntiau trafod ychwanegol y gallech chi a'ch dysgwyr eu hystyried:

- Mae llawer o swyddi ar lefel mynediad yn gofyn am sgiliau digidol. Er enghraifft, mewn canolfannau galwadau, mae llawer o swyddi gwahanol yn defnyddio systemau cyfathrebu penodol sy'n gymhleth iawn (fel KANA), ac maen nhw'n llawer mwy datblygedig na dim ond defnyddio Outlook ar gyfer e-bost. Yn yr un modd, mae defnyddio rhwydwaith ffôn yn y swyddfa yn gam mawr i fyny o ddefnyddio'ch ffôn symudol eich hun.
- Y canfyddiad cyffredinol yw mai dim ond i swyddi mewn swyddfeydd y mae rhai sgiliau digidol yn berthnasol. Dydy hynny ddim yn wir – mae sgiliau digidol yn berthnasol i bob swydd. Er enghraifft, yn y byd celf, allwch chi ddim bod yn ddylunydd, yn artist, yn rhedeg oriel, yn ffotograffydd nac yn gynllunydd heb gael dealltwriaeth gadarn o dechnoleg ddigidol.
- Mae gyrfaedd digidol/technoleg yn aml yn cael eu hystyried yn yrfaedd sy'n gwyrô'n drwm tuag at ddynion. Fodd bynnag, dydy hynny ddim yn wir, ac mae Tesco'n cefnogi'r cynllun "Tech She Can". Mae'r cynllun yma'n annog menywod, a menywod ifanc yn arbennig, i ymuno â'r sector technoleg. Ewch i'r wefan yma i ddarllen mwy: <https://www.pwc.co.uk/who-we-are/women-in-technology/tech-she-can-charter.html>



FY SGILIAU DIGIDOL >



AMSER

Dependent



DEUNYDDIAU

- ✓ Tabled Fy sgiliau digidol
- ✓ Cyfrifiaduron â mynediad i'r rhyngwyd



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Rhoi enghreifftiau o dasgau sy'n gofyn am adnoddau digidol
- ✓ Manteision ac anafanteision gwahanol adnoddau digidol
- ✓ Egluro pam mae'n bwysig sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau digidol yn gyfredol
- ✓ Enghreifftiau o ba rai o'u sgiliau digidol eu hunain y mae angen eu datblygu
- ✓ Ffyrdd o ddatblygu sgiliau digidol

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Gofynnwch i'r dysgwyr a oes unrhyw rai o'r swyddi maen nhw wedi darllen amdanyn nhw yn y gweithgaredd diwethaf yn swnio fel rhywbeth y bydden nhw'n awyddus i'w wneud yn y dyfodol. Dylech eu hannog i egluro pam, neu pam ddim.
2. Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ymchwilio i lwybr gyrfa posibl ar gyfer y dyfodol. Os oes modd, dylech annog y dysgwyr i ddefnyddio'r rhyngwyd i chwilio am swydd sy'n mynd â'u bryd. Efallai fod ganddyn nhw sector, diwydiant neu swydd mewn golwg yn barod, neu efallai fod angen iddyn nhw ddechrau o'r dechrau. Gofynnwch iddyn nhw wneud nodyn o'r sgiliau digidol, y rhai sylfaenol a'r rhai arbenigol, y byddai eu hangen arnyn nhw i wneud y swydd yma. Gallai'r gwefannau isod fod yn ddefnyddiol fel man cychwyn, ond dylech eu hannog i fod mor uchelgeisiol ag y maen nhw'n dymuno – oes yna ffigwr adnabyddus y bydden nhw'n hoffi ei efelychu, er enghraifft Elon Musk? Dywedwch wrthyn nhw am ymchwilio i'r bobl hynny, a'r sgiliau digidol sydd ganddyn nhw/maen nhw'n eu defnyddio.

GWEFANNAU DEFNYDDIOL

- <https://targetjobs.co.uk/careers-advice/job-descriptions>
- <https://www.myworldofwork.co.uk/my-career-options/job-categories>
- <https://www.thebalancecareers.com/different-types-of-jobs-a-z-list-2059643>
- <https://www.reed.co.uk/>
- <https://uk.indeed.com/>
- <https://linkedin.com/jobs>

3. Rhowch y templed Fy sgiliau digidol i bob dysgwr. Esboniwch y byddan nhw'n cofnodi:
 - Eu diddordebau a'u sgiliau digidol ar hyn o bryd (gan gynnwys pa ddyfeisiau maen nhw'n eu defnyddio, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ati)
 - Y swydd/gyrfa sy'n mynd â'u bryd

- Dwy enghraifft o dasgau yn y gweithle ar gyfer yr yrfa honno, a'r adnoddau/sgiliau digidol sydd eu hangen ar gyfer y tasgau
- Rhaglenni/meddalwedd/adnoddau y byddai angen iddyn nhw eu defnyddio yn yr yrfa honno
- Manteision/anfanteision gwahanol feddalwedd/rhaglenni/adnoddau digidol
- Y sgiliau digidol y byddai angen iddyn nhw eu datblygu ar gyfer yr yrfa yma
- Sut byddan nhw'n datblygu'r sgiliau digidol yma – unrhyw weithgareddau/tasgau
- Pam mae'n bwysig sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau digidol yn gyfredol

AWGRYM I'R HWYLUSYDD

Does dim rhaid i'r dysgwyr ddefnyddio templed Fy sgiliau digidol. Os gall y dysgwyr feddwl am ffyrdd mwy creadigol o gyflwyno'r wybodaeth uchod, dylech eu hannog i wneud hynny (yn enwedig os byddai'n eu helpu i ymarfer eu sgiliau digidol). Bydden nhw'n gallu gwneud hynny ar ffurf cyflwyniad, sribed mewn comic/nofel comics, CV rhyngweithiol, dyddlyfr, proffil ar gyfryngau cymdeithasol, ac ati.

4. Dylech annog y dysgwyr i rannu eu proffiliau â gweddill y grŵp:
- Ydy'r dysgwyr yn gweld bod y sgiliau digidol sylfaenol y mae angen iddyn nhw eu datblygu yn debyg i'w gilydd?
 - Wnaeth unrhyw un sôn am unrhyw ddulliau defnyddiol o ddatblygu/dysgu sgiliau digidol y byddai pobl eraill yn gallu eu defnyddio hefyd?
 - Fyddai'r dysgwyr yn hoffi cael gwybod mwy am unrhyw yrfaeodd?
 - Oedd unrhyw rai o'r dysgwyr wedi cyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd arbennig o greadigol? Ydy hynny'n gallu ysbrydoli pobl eraill?

DIRWYN I BEN >



AMSER

5-10 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad PowerPoint – Sgiliau digidol yn y gweithle
- ✓ Taflen waith Hyder digidol (dewisol)

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am lefel eu sgiliau digidol sylfaenol, a dangoswch sleid 12 y cyflwyniad ategol iddyn nhw. Ar raddfa o 1-5 lle mae 1 yn golygu ddim yn hyderus o gwbl, a 5 yn golygu hyderus iawn, gofynnwch iddyn nhw ystyried pob cwestiwn (defnyddiwch y daflen waith os ydyn nhw'n gwneud y gweithgaredd ymestynnol dewisol isod):
 - Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo wrth ddefnyddio gliniadur neu ffôn symudol neu unrhyw ddyfais arall?
 - Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am gadw'n ddiogel ar-lein?
 - Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am gyflawni tasgau sylfaenol fel:
 - » Defnyddio adnodd dogfennau, er enghraifft Word, i'ch helpu i ysgrifennu CV?
 - » Cadw'ch dogfen?
 - » Creu cyfrif e-bost?
 - » Defnyddio'r rhyngwyd i wneud rhywfaint o ymchwil?
 - » Defnyddio'r rhyngwyd i brynu rhywbeth?

GWEITHGAREDD YMESTYNNOL DEWISOL

Gallech ofyn i'ch dysgwyr osod nodau iddyn nhw eu hunain ar sail y sgiliau maen nhw'n teimlo'n lleiaf hyderus yn eu cylch. Bydden nhw wedyn yn gallu ailedrych ar eu taflen waith a thrafod a yw eu hyder wedi gwella, ydyn nhw wedi cyrraedd eu nod, a beth wnaethon nhw er mwyn cyrraedd y nod, ac ati.

2. Dylech annog y dysgwyr i ddweud a ydyn nhw am ganolbwyntio ar unrhyw rai o'r sgiliau digidol sylfaenol sydd wedi'u rhestru uchod, neu ar sgiliau digidol arbenigol maen nhw wedi dysgu amdany'n nhw yn y pwnc yma. Gofynnwch iddyn nhw sut byddan nhw'n gwneud hyn. Dylech eu hatgoffa o'r gwahanol ddulliau a drafodwyd ar gyfer gwella a dysgu sgiliau digidol.